

Canllawiau cerdyn gweithredu

- Dylid defnyddio'r cerdyn gweithredu hwn ar y cyd â chanllawiau cyfredol Llywodraeth Cymru ar gyfer Twristiaeth a Lletygarwch a Chynllun Rheoli COVID-19.
- Ei ddiben yw tynnu sylw at y camau hynny sy'n hanfodol i atal a rheoli haint COVID-19 mewn safleoedd twristiaeth a lletygarwch sy'n agored i'r cyhoedd.

Gosod cyd-destun

- Rhaid i leoliadau lletygarwch trwyddedig a rhai nad ydynt yn drwyddedig, darparu lletygarwch ac atyniadau a gweithredwyr twristiaeth sy'n cael agor/gweithredu i ddarparu gwasanaeth i gwsmeriaid wneud hynny'n ddiogel mewn ffordd sy'n cydymffurfio â'r Rheoliadau Coronafeirws a rhwymedigaethau cyfreithiol eraill a osodir ar gyflogwyr (megis deddfwriaeth iechyd a diogelwch).
- Rhaid i bob busnes gynnal asesiad risg COVID-19 penodol yn unol â deddfwriaeth a chanllawiau cyfredol Llywodraeth Cymru. Defnyddiwch y canllawiau i lywio penderfyniadau a mesurau rheoli ac ymgynghori ag undebau a/neu weithwyr. Rhaid i fusnesau sydd â mwy na phump o weithwyr sicrhau bod yr asesiad risg ar gael.

Sut ydych chi eiddoedd COVID-19 allan o'm safle?

Amlinellir isod y camau allweddol i chi eu cymryd i fod mor ddiogel â phosibl o COVID-19:

1. Atgoffwch yr holl staff a chwsmeriaid, os ydynt hwy, neu unrhyw un o'u grŵp, yn symptomatig, wedi profi'n gadarnhaol, yn aros am ganlyniad prawf neu wedi cael cais i hunanynysu gan wasanaeth Profi, Olrhain, Diogelu y GIG, i beidio dod i'ch safle. Dylech gyfleu hyn i'r cwsmer ar adeg archebu, ar ôl cyrraedd a thrwy arddangos posteri neu arwyddion ar eich safle.
2. Eich cyfrifoldeb chi fel busnes yw dilyn canllawiau ar Gadw Cofnodion Staff, Cwsmeriaid ac Ymwelwyr a gweithredu proses gadarn i gasglu manylion i gefnogi Profi, Olrhain, Diogelu.
3. Dylech gyfleu'n glir i gwsmeriaid ei bod yn ofynnol yn ôl y gyfraith i chi gasglu'r data hwn.
4. Sicrhau bod staff a chwsmeriaid yn gwisgo gorchuddion wyneb mewn rhannau o'r safle sy'n agored i'r cyhoedd, oni bai bod y person o dan 11 oed neu fod ganddo esgus rhesymol i beidio.
5. Mae'r risg o haint yn cael ei leihau pan ddefnyddir y rheol 2 fetr ac fel rhan o'ch asesiad risg dylech geisio cyflawni hyn. Lle na all staff fod 2 fetr ar wahân, e.e. mewn ceginau bach ac ystafelloedd staff, dylid rheoli risg trosglwyddo drwy wisgo mygydau wyneb/gorchuddion wyneb bob amser a sicrhau bod adnoddau ar gael i sicrhau hylendid dwylo.
6. Gweithredu mesurau i sicrhau bod cyn lleied â phosibl o gysylltiadau ag aelodau'r staff. Gellir amrywio amser egwyl a threfnu danfoniadau er mwyn osgoi gorlenwi, gosod uchafswm nifer y staff mewn ceginau, ystafelloedd staff, ystafelloedd newid a manau fel llochesi ysmegu ac osgoi rhannu ceir.

7. Mewn amgylchiadau eithriadol lle nad yw'n fasnachol hyfyw i fusnes gynnal y rheol 2 fetr mewn rhannau o'r safle sy'n agored i'r cyhoedd, dylid rhoi mesurau lliniaru ar waith megis defnyddio sgriniau neu rwystrau rhwng byrddau ac amseroedd cyrraedd a gadael amrywiol. Rhaid i chi bennu ac arddangos y capasiti mwyaf posibl ar gyfer y safle, gweithredu systemau un ffordd a chiwio a darparu cyfathrebu clir e.e. arwyddion, graffeg llawr, cordonau/rhwystro drwyddi draw.
8. Gwneud y mwyaf o awyru a gwella llif aer drwy agor ffenestri a chadw drysau mewnol yn agored (ond nid drysau tân) lle bo hynny'n bosibl.
9. Rhwng hylif diheintio dwylo mewn sawl lleoliad a defnyddiwch arwyddion clir i atgoffa cwsmeriaid a staff am olchi dwylo a hylendid da.
10. Nodi a glanhau pwyntiau cyffwrdd allweddol yn rheolaidd e.e. dolenni drysau, botymau lifft, bysellbadau, a rheiliau llaw grisiau/esgynnwyr.
11. Os ydych chi gweini bwyd a diod, dylai bwydlenni a napcynau fod at ddefnydd unigol yn unig, ynghyd â chyllill a ffyrac ac eitemau eraill, ac yn cael eu darparu wrth y bwrdd. Dylid darparu sawsiau a phupur a halen wedi'u lapio'n unigol i gwsmeriaid ar gais, yn hytrach na'u rhannu ar fyrddau. Gellir defnyddio apiau neu ddyfeisiau cyfathrebu eraill i leihau cyswllt â chwsmeriaid, gan gynnwys opsiynau ar gyfer bwydlenni, archebu, bilio a thalu digyffyrdd.

Pa gamau ddylwn i eu cymryd pan fydd gweithiwr neu gwsmer yn profi'n bositif am COVID-19?

1. Byddwch yn dysgu am achos a gadarnhawyd yn eich gweithle mewn nifer o ffyrdd: gan staff; contractwr; eich canolfan feddygol; gwasanaeth iechyd yr amgylchedd neu gan lechyd Cyhoeddus Cymru.
2. Os byddwch yn dod yn ymwybodol bod aelod o staff neu gwsmer wedi profi'n bositif, mae'n bwysig i chi gysylltu â'ch tîm iechyd yr amgylchedd lleol neu'ch Tîm Olrhain, Profi a Diogelu.
3. Pan fyddwch yn cael gwybod am achos cadarnhaol bydd angen i chi nodi unrhyw aelodau staff a oedd â chysylltiad agos â'r unigolyn hwnnw. Gofynnir i chi hefyd hysbysu'r cwsmeriaid hynny a oedd ar y safle pan oedd yr unigolyn yn bresennol.
4. Unwaith y bydd y cysylltiadau hyn wedi'u nodi, bydd angen rhoi gwybod iddynt am y risg (drwy'r broses Olrhain, Profi, Diogelu neu reolwr) a'u cynghori a'u cefnogi i hunanynysu.
5. Ni ddylai cyflogwyr ei gwneud yn ofynnol i unrhyw aelod o staff y bu'n ofynnol iddo hunanynysu fel cyswllt neu achos gyflwyno prawf negyddol cyn dychwelyd i'r gwaith. Gallant ddychwelyd i'r gwaith ar ôl cwblhau eu cyfnod ynysu o 10 diwrnod.

Sut alla i leihau lledaeniad yr haint yn fy musnes?

Os oes gennych chi 2 achos neu fwy gan eich gweithlu neu ymwelwyr yn profi'n bositif mewn cyfnod o 14 diwrnod bydd angen i chi ystyried a oes risgiau cynhenid yn y gweithle. Efallai yr hoffech:

1. Adolygwch eich asesiad risg COVID-19 penodol gan gynnwys arferion gwaith, arferion glanhau/diheintio, glynu wrth y rheol 2 fetr a gwisgo gorchuddion wyneb a chymryd camau i gyflwyno mesurau lliniaru newydd lle bo angen.
2. Dylai cynrychiolwyr lechyd a Diogelwch ac undebau gael eu briffio'n llawn a'u cynnwys mewn unrhyw benderfyniadau ar reolaethau lliniaru pellach.
3. Mae ymgysylltu â staff, hyfforddi, goruchwyllo a chyfleu'r cynllun diwygiedig yn rhan hanfodol o hyn ac yn rhoi'r cyfle i atgyfnerthu arfer da a sicrhau bod arwyddion a symptomau COVID-19 yn cael eu deall a'u gweithredu'n briodol (e.e. hunanynysu a phrofi).
4. Bydd unrhyw glwstwr yn eich gweithlu yn ysgogi camau gweithredu gan yr awdurdod lleol. Byddant yn gallu eich cefnogi a'ch cynghori ar gamau pellach sydd eu hangen i liniaru risgiau parhaus. Un o'r camau y gallent ddymuno i chi ei gymryd yw cefnogi profion ar y gweithlu cyfan i nodi unigolion asymptomatig.

Dolenni i ganllawiau allweddol:

llyw.cymru/canllawiau-ar-gyfer-busnesau-twristiaeth-a-lletygarwch-coronafeirws www.hse.gov.uk/simple-health-safety/risk/index.htm

llyw.cymru/cymryd-pob-mesur-rhesymol-i-leihau-risg-o-ddod-i-gysylltiad-ar-coronafeirws-mewn-gweithleoedd

llyw.cymru/cadw-cofnodion-ynghylch-staff-cwsmeriaid-ac-ymwelwyr-profi-olrhain-diogelu businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/cy/pecyn-cymorth

cymorth

